

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Eirian Davies (Cefn Meiriadog) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, a Bob Davies (Llanfair) sy'n parhau yn Ysbyty Llandudno. Cofiw'n hefyd am Gruffydd, mab bach Iwan a Menna Jones (Groes) fu'n bur wael y penwythnos diwethaf ond sydd bellach wedi cael dod adref – diolchwn am y gofal arbennig a dderbyniodd tra yn Ysbytai Glan Clwyd ac Alderhey. Deallwn hefyd fod Gwilym Jones (Tanyfron) wedi cael anffawd yn ddiweddar. Gweddïwn y bydd y cleifion oll yn cael gwellhad buan ac y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen. Cyflwynwn eu hanwyliaid hefyd i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo gysgodi drostynt hwythau.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen sydd yng nghartref gofal Yr Hen Ddeondy. Diolchwn am y gofal y maent yn ei dderbyn yno a gobeithiwn eu bod yn profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.
- Llongyfarchiadau i William Hughes (Cefn Berain) sydd newydd ddathlu pen-blwydd arbennig!

Ymateb i Argyfwng y Philippines

Os dymunwch ymateb i'r argyfwng yn y Philippines yn dilyn y corwynt erchyll, a fyddech cystal â dychwelyd yr amlenni melyn (Tearfund) i Mair **erbyn dydd Sul nesaf, Rhagfyr 8fed**, os gwelwch yn dda? (Os nad ydych wedi cael amlen, holwch un o'r blaenoriaid.) Dylid gwneud unrhyw siec yn daladwy i **'Gofalaeth Bro Aled'**, ac os yw'n bosibl i chi hefyd lenwi ac arwyddo'r ffurflen rhodd cymorth sydd ar yr amlen, byddai hynny hefyd yn cynyddu gwerth eich rhodd ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

I ddod

- **PWYLLGOR BLAENORIAID YR OFALAETH** yng Nghapel Llanefydd nos Fawrth, Rhagfyr 10fed am 7.30.
- **GWASANAETH CAROLAU I'R FRO** yn Llansannan nos Sul, Rhagfyr 15fed am 6.00.
- **OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** yng Nghapel Cefn Berain am 9.30.
- **TAITH GERDDED I'R FRO** bore Gwener, Rhagfyr 27ain. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Rhagfyr 29ain am 10.00 yn Soar, Llanfair Talhaiarn.
- **ADUNIAD SOULED OUT (15 OED+)** yng Ngholeg y Bala, Ionawr 31ain–Chwefror 2il.
- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 7fed–9fed.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 28ain–Mawrth 2il.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 1^{af} Rhagfyr 2013

Darlleniad y Dydd

Luc 2:14–20

(BCND tud.63 / BCN: tud.58)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

“Achos mae plentyn wedi cael ei eni i ni; mab wedi cael ei roi i ni. Bydd e'n cael y cyfrifoldeb o lywodraethu. A bydd yn cael ei alw yn Strategydd rhyfeddol, y Duw arwrol, Tad yr oesoedd, Tywysog heddwch. Fydd ei lywodraeth ddim yn stopio tyfu...” (Eseia 9, Beibl.net)

Bore da a chroeso i'r oedfaon arbennig heddiw. Mae dyfodiad Iesu i'r byd yn cael ei ddisgrifio fel achlysur llawen a gobeithiol, a gobeithio y cawn brofiad o lawenydd yr Arglwydd heddiw wrth gydaddoli.

Gallwn ddychmygu gwefr y bugeiliaid wrth iddynt redeg tua Bethlehem i weld y plentyn bach a oedd wedi'i eni a'i roi mewn cadachau yn y preseb! Dyma oedd y peth y cawsant wybod amdano gan yr angylion. Pam dod fel baban tybed? Dyma sut y mae Ann Griffiths yn disgrifio'r plentyn rhyfeddol:

“Yn ddyn bach, yn wan, yn ddinerth
Yn anfeidrol fywiol Dduw!” (CFF 446)

Un o'r rhesymau mawr dros ddod fel plentyn bach oedd mai dyma oedd addewid Duw o'r cychwyn. “Had y wraig” a addawyd yn Eden, (Genesis 3:15) sef plentyn, wedi ei eni o wraig ac yn rhannu ein natur ni fel pobl. Cafodd yr addewid yma ei chadarnhau yng nghyfnod Eseia pan y proffwydodd y byddai “bachgen” yn cael ei eni ac yntau yn “Dduw Cadarn, yn Dad tragwyddoldeb!” neu “y Duw arwrol, Tad yr oesoedd.” (Eseia 9: 6-7) A dyma loan yn dweud, ar ôl ei gyfarfod: “Daeth y Gair yn berson o gig a gwaed; daeth i fyw yn ein plith ni. Gwelsom ei ysblander dwyfol.” (loan 1: 14)

Cefais fy herio'r wythnos yma gan gwestiwn – sut fyddai'r byd yn edrych heb Gristnogaeth, heb gred yn Iesu, heb ddylanwad yr Ysbryd Glan? Daethom i'r canlyniad y byddai crefydd yn dal i ffynnu – crefydd a fyddai'n addoli'r coed a'r afonydd a'r ysbrydion cyntefig. Ond y peth rhyfeddol am ddyfodiad Crist i'r byd ydi fod Duw yn dweud pan gafodd Iesu ei eni: “Addolwch ef!” (Hebraid 1:6) Rydan ni'n cael addoli Duw ei hun yng Nghrist gan fod holl gyflawnder Duw ynddo – y mae yn Dduw ac yn ddyn. (Colosiaid 1: 19) Mae Duw ei hun wedi dod i'n plith i orchfygu marwolaeth a phechod. Dyma ran o garol boblogaidd Jane Ellis:

“Daeth Brenin yr hollfyd i oedfa ein hadfyd
er symud ein penyd a'n pwn..” (CFF 472)

Dyma ydi testun ein llawenydd – fod Duw ei hun o'n plaid – neb llai! Mae yn y frwydr gyda ni, yn frawd ac yn feddyg i ni – yn Dywysog ein hiachawdwriaeth. Rhedwn ato. Addolwn ef!

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma**
- Cynhelir **Oedfa Arbennig Sul y Beibl i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias a bydd **Arfon Jones, Caerdydd** (Llanrhaeadr gynt) yn agor y Gair i ni. Edrychwn ymlaen i'w groesawu i'n plith ac i glywed rhywfaint o hanes cyfieithu'r Beibl i Gymraeg cyfoes, sef **beibl.net**
- Mawrth
- Cyfarfod Gwedd i'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher
- Adnabod Addoli** yn Ffestri Llansannan am 8.00.
- Iau
- Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- Sadwrn
- Hwyl yr Ŵyl** ar gyfer oeddrannau 7-11 oed yng Ngholeg y Bala rhwng 10.00–5.30. Y pris fydd £12 y plentyn ac £8 i'r ail blentyn. Cysylltwch â'r Coleg ar fyrder i archebu lle: (01678) 520565.
 - Darlithoedd DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yn Ffestri Capel Tegid, Y Bala. (Paned am 10.00, y darlithoedd o 10.30 – 4.00.)
- Sul nesaf
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma** Bydd Andras Iago yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Iau
- Bydd Noson Arbennig i Lansio'r Llyfr "Capel Cefn Meiriadog Ddoe a Heddiw" gan Mr Meurig Owen yng Nghefn Meiriadog am 7.30, a chyfle ar ôl y lansio am sgwrs, paned a mins pei. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma** Bydd Aneurin yn arwain oedfa undebol Sul y Beibl am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau
- Dydd Jangl. Dewch **erbyn 11.00** i gael paned ac orig gerddorol, ac yna cewch ginio fel arfer oddeutu 12.00.
- Sul nesaf
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma** Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf** Bydd Rhodri yn arwain oedfa Nadolig i'r teulu yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma** Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf** Bydd Mr Owain Roberts yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma** Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf** Bydd Celfyn yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma** Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.
- Llun
- Bydd Cyfarfod Chwiorydd Cefn Berain yn cyfarfod am 7.00 pryd y bydd Haf Evans, Tan y Graig yn cyflwyno Myfyrdod y Nadolig.
- Gwener
- Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau